FLAF03

# FFORWM MYNEDIAD LLEOL SIR Y FFLINT

**Cofnodion - 17 Hydref 2023**

**Canolfan Gymunedol Talacre**

---

**Presennol** – Huw Morgan, Jeff Shone, Sarah Hampson, Nia Thomas, Cynghorydd Dave Evans, Alan Neale.

**Swyddogion yn bresennol** - Tom Woodall, Derrick Charlton, Natalie Davies, Adrian Hibbert, Suzanne Williams, Stuart Jones, Isobel Smith.

**Arsyllydd -** Ian Hughes, Cyfoeth Naturiol Cymru

**Ymddiheuriadau** – Neville Howell, Shirley Fermor, John Holiday, Julian Pellatt.

**1/ Croeso –**

Croesawodd yr Is-Gadeirydd, HM bawb i drydydd cyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol yn absenoldeb y Cadeirydd. Cafwyd cyflwyniadau gan bawb a oedd yn bresennol a derbyniwyd ymddiheuriadau.

**2/ Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod ar 7 Hydref wedi'u hysgrifennu'n gywir.

**a.** Materion yn Codi

Rhoddodd TW ddiweddariad i'r fforwm ar yr adolygiad o'r rhwystr mynediad. Cafodd sylwadau'r Fforwm Mynediad Lleol eu hanfon ymlaen at y Cabinet, a oedd yn ddiolchgar iawn am y cyngor. Roedd y Cabinet yn derbyn yr adborth ac yn gofyn i swyddogion lunio cynlluniau manwl a gwahodd adborth pellach gan y gymuned. Bydd y Cabinet yn ailystyried ym mis Rhagfyr.

**3/ Cyfarfod Blynyddol Fforwm Mynediad Lleol Cymru Gyfan 4 Hydref 2023**

Roedd HM a TW wedi mynychu'r cyfarfod hwn yn Llanfair-ym-Muallt ar ran y fforwm.

Rhoddodd HM drosolwg o'r drafodaeth, yn benodol ymgynghoriad ar strategaeth hamdden awyr agored Cyfoeth Naturiol Cymru a oedd wedi'i e-bostio yn flaenorol at aelodau, y gwaith Diwygio Mynediad, a oedd yn cynnwys newidiadau i ganllawiau Fforwm Mynediad Lleol.

**Cam Gweithredu -** TW i anfon dogfen rheoleiddio Fforwm Mynediad Lleol arfaethedig.

**4/ Cyflwyniad i Barc Arfordirol Sir y Fflint**

Cyflwyniad gan TW ac Isobel Smith, Swyddog Datblygu Cysylltu'r Arfordir a Chefn Gwlad.

Rhoddodd TW gefndir, cyd-destun a gwaith presennol sy'n gysylltiedig â datblygu Parc Arfordir Sir y Fflint.

Rhoddodd IS orolwg o'i rôl newydd ac amlygodd bod angen cwblhau'r rhaglen erbyn Rhagfyr 2024. Mae cymunedau wedi eu datgysylltu ac mae'n edrych am ffyrdd i gysylltu pobl a busnesau ac edrych ar weithio mewn partneriaeth.

Gofynnodd TW am adborth gan y fforwm ar faterion mynediad hysbys presennol ar hyd y blaendraeth a gofynnodd i'r fforwm fod yn rhan o'r broses hon.

Roedd AN eisiau gwybod pam fod Maes Glas wedi'i adael allan, aeth TW drwy bob un o'r canolbwyntiau ar draws y blaendraeth, a oedd yn cynnwys Maes Glas.

Gofynnodd HM am gyfleoedd i greu cysylltiadau o'r arfordir.

Ymatebodd TW mai dyma oedd y bwriad (i ymuno'r arfordir a chymunedau) a byddent yn edrych ar ddatblygu cysylltiadau gwell.

Gofynnodd JS a oedd yr Wyddgrug a Bwcle yn gallu cael mynediad i'r arfordir.

Ymatebodd TW mae'n bosibl y byddai hyn y tu hwnt i'r cwmpas a dywedodd DC mae'n bosibl y gallent ddefnyddio llwybrau beicio i gael mynediad.

Amlygodd DE yr adran - Cei Connah neu'r Fflint a'r angen i gysylltu yn Oakenholt.

Gofynnodd JS a oedd unrhyw un yn defnyddio'r rheilffordd, gallent fynd â'u beic ar y trên a chael mynediad felly.

Dywedodd TW fod llwybrau beicio cenedlaethol yn ddolen allweddol. Bydd gorsafoedd trên yn darparu cysylltiadau hanfodol i'r arfordir ac yn galluogi mynediad i lwybrau llinellol.

IH roedd llwybrau cylchol yn bwysig i adeiladu i mewn ar gyfer mynediad i'r bobl leol i'w hamgylchedd cyfagos.

Gofynnodd SH sut ydych yn mynd i ymgysylltu â phobl leol?

Dywedodd TW fod y gwaith ymgysylltu yn gyflawniad craidd y rhaglen ond nid oedd wedi'i ddiffinio eto.

**Cam Gweithredu -** Aelodau i anfon e-bost at TW gyda barn bellach ar y prosiect, yn arbennig materion mynediad hysbys.

.

**5/ Gwyriadau llwybr troed drwy fuarth fferm**

Roedd ND a AH wedi rhoi eu barn ar y materion yn ymwneud â llwybrau troed yn mynd drwy fuarth fferm ac yn cynnig polisi diwygiedig ar gyfer ystyriaeth.

Gofynnodd JS pam fod llwybrau troed yn mynd drwy fuarth fferm?

Awgrymodd AN ei fod oherwydd eu bod yn 1939 ac yn cael eu defnyddio'n draddodiadol ar gyfer cael gwaith.

Roedd DE yn dymuno deall os oedd y rhan fwyaf o'r cwynion gan ffermwyr neu ddefnyddwyr. Roedd ND yn awgrymu defnyddwyr.

Awgrymodd AN fod aelodau o'r cyhoedd yn anghyfforddus yn defnyddio llwybrau troed buarth fferm a bydd materion ond yn gwaethygu yn y dyfodol.

**Cam gweithredu -** Polisi/gweithdrefn drafft i'w datblygu ar gyfer trafodaeth yn y dyfodol.

**6/ Llwybrau ceffyl - cyfle i wella'r rhwydwaith**

Rhoddodd SJ farn ar ddarn o waith posibl i nodi meysydd o welliant ar y rhwydwaith llwybr ceffyl a gofynnwyd am wirfoddolwr i gynorthwyo.

**Gweithredu -** Bydd SH ac SJ yn dod ynghyd i gwmpasu'r gwaith.

**7/ Crynodeb Rheoli Rhwydwaith (Eitem sefydlog)**

**Cam gweithredu -** SJ i anfon yr ystadegau chwarterol allan

**8/ Adroddiad Arolygwr (Eitem sefydlog)**

Rhoddodd AH ddiweddariad ar waith diweddar ar y rhwydwaith

**9/ Unrhyw Fater Arall**

Nid oedd unrhyw faterion eraill a daeth y cyfarfod i ben am 12pm.

Fe gerddodd yr aelodau o amgylch Talacre.

Cynhelir y cyfarfod nesaf - 6 Chwefror 2024.

**FLAF03**